

RHEOLWR GRŴP (Dyletswydd Fflecsi) PROSES BWRDD DYRCHAFU

Rheolwr Grŵp B: £71924 (datblygu)
£79,734 (cymwys) y flwyddyn (yn cynnwys lwfans fflecsi),
ynghyd a char prydles neu gerbyd a darperir
Agored i ymgeiswyr mewnol ac allanol

Mae byw a gweithio yng Ngogledd Cymru yn cynnig amgylchedd rhagorol i unrhyw un sy'n ceisio ansawdd bywyd gwell. Yn cael ei hystyried ers tro fel un o'r lleoedd harddaf yn y DU, mae gan yr ardal lawer i'w chynnig, yn enwedig o ran gweithgareddau awyr agored, a gweithgareddau diwylliannol a hamdden.


Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru eisiau adnabod unigolion addas ar gyfer rolau Rheolwyr Grŵp (B). Mae proses y bwrdd dyrchafu yn galluogi ymgeiswyr llwyddiannus i fod yn gymwys i gael eu penodi o fewn cyfnod o 12 mis neu nes bydd proses newydd yn cychwyn. Yn unol â thelerau ac amodau y Llyfr Llwyd mae'r penodiadau'n gyfnewidiol gydag unrhyw swydd arall o'r un rôl o fewn y Gwasanaeth.

Gwahoddir ceisiadau gan Reolwyr Gorsaf cymwys parhaol a Rheolwyr Grŵp parhaol. (Dylai Rheolwyr Grŵp mewnol presennol sy'n dymuno newid eu rôl bresennol gyflwyno ffurflen gais trosglwyddo mewnol, a fydd yn cael ei hystyried fel rhan o'r broses hon).

Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn gweithio mewn amgylchedd cynyddol ymestynnol, sy'n canolbwyntio ar berfformiad ac felly dylai ymgeiswyr fod â record gref o lwyddo a medru hyrwyddo arweinyddiaeth weddnewidiol ac arddangos ymrwymiad i ragoriaeth.

Bydd gofyn i ymgeiswyr gwblhau ffurflen gais lawn ar ôl darllen y nodiadau canllaw yn ofalus mewn perthynas â darparu tystiolaeth yn erbyn yr holl feini prawf hanfodol yn y fanyleb person. Bydd gofyn i ymgeiswyr gyflwyno cyflwyniad 15 munud ac ateb cwestiynau mewn perthynas â'r cyflwyniad a gyflwynir a gofynion y rôl. Bydd y pwnc cyflwyno yn cael ei rannu yn y cadarnhad o'r rhestr fer.

Mae sgiliau iaith Gymraeg yn un o ofynion y swydd hon ac yn ddelfrydol bydd ymgeiswyr yn medru arddangos Cymraeg Lefel



Llinell Gymorth Gweithwyr Cyfrinachol

Rydym yn gyflogwr cyfle cyfartal ac yn croesawu ceisiadau gan bob rhan o'r gymuned. Rydym wedi ymrwngwng i roi cyfle cyfartal i'r holl staff ac mae ceisiadau yn cael eu hannog gan unigolion waeth beth fo'u sefyllfa o ran oedran, anabledd, rhywedd, ailbennu rhywedd, cyfeiriadedd rhywiol, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred a phriodas a phartneriaethau sifil.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau yn y Gymraeg a'r Saesneg a byddwn yn ymateb yn gydradd i'r naill iaith ac yn ymateb yn eich iaith ddewisol heb oedi. Ni fydd cais a gyflwynir yn y Gymraeg yn cael ei drin yn llai ffafriol na chais a gyflwynir yn Saesneg.

3 wrth wneud cais. Fodd bynnag, nid yw hyn yn faen prawf dethol hanfodol a rhoddir cymorth a hyfforddiant llawn i ymgeiswyr llwyddiannus.

Sylwch fod y swydd hon yn destun gwiriadau cyn cyflogaeth gan gynnwys Gwiriad DBS, Clirihad Diogelwch, prawf meddygol gan gynnwys Cyffuriau ac Alcohol a geirdaon boddhaol. Os derbynnir datgeliad cadarnhaol (wedi'i wario neu heb ei wario) ar y DBS, bydd dull seiliedig ar risg ar reoli'r wybodaeth yn cael ei fabwysiadu gan y Gwasanaeth ac yna gwneir penderfyniad rhesymol a chymesur ynghylch y gweithiwr presennol neu ddarpar weithiwr. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yma.

Am ragor o fanylion am y rôl, cyfeiriwch at y pecyn gwybodaeth. I wneud cais, cwblhewch a chyflwynwch eich Ffurflen Cymeradwyaeth Rheolwr ar gyfer Dyrchafiad (ymgeiswyr mewnol yn unig) a ffurflen gais lawn gyda'i gilydd drwy e-bost i: recrwtio@tangogleddcymru.llyw.cymru cyn y dyddiad cau isod.

Rhagwelir y bydd yr Asesiadau Rheoli a Gorchymyn Digwyddiadau yn digwydd cyn y cam cyfweliad, gyda chyfweliadau'n cael eu cynnal dros nifer o ddyddiau gan ddechrau o **3 Medi 2026**. Sylwer, os nad yw ymgeiswyr yn gallu mynychu ar eu dyddiad cyfweliad wedi'i drefnu, efallai y bydd y Gwasanaeth yn gallu gwneud trefniadau amgen lle bo hynny'n rhesymol ymarferol.

I gael sgwrs anffurfiol am y swydd hon, cysylltwch â Rheolwr Ardal Dave Hughes, Pennaeth Ymateb, drwy e-bostio Dave.Hughes@tangogleddcymru.llyw.cymru neu ffonio 07717 516189.

Dyddiad cau ar gyfer derbyn ffurflenni cais yw 12:00 ar 21ain o Awst 2026
Byddwn yn cadw at y dyddiad cau ac ni fydd eithriadau.